Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 324 (Cymru) – 25 Mai 2022

Adroddiad ar gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr yn 2021

Rydym heddiw (dydd Mercher 25 Mai) wedi cyhoeddi adroddiad ar gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr yn 2021. Mae'r adroddiad yn edrych ar sut y cynhaliwyd canfasiad 2021 ac yn ystyried effaith barhaus y newidiadau i broses y canfas blynyddol, a gyflwynwyd yn 2020, ar y cofrestrau etholiadol. Mae hefyd yn cynnwys dadansoddiad o'r nifer o bobl ifanc 16 ac 17 oed ar y cofrestrau a gyhoeddir yng Nghymru ar ddiwedd canfasiad 2021.

Er na allwn eto ddod i gasgliadau ar effaith y broses newydd ar gywirdeb a chyfanrwydd y cofrestrau, mae ein dadansoddiad o'r data sydd ar gael yn awgrymu problemau dichonadwy gydag effeithiolrwydd y canfasiad diwygiedig wrth gadw i fyny â symudiad poblogaeth:

- Mae'r broses paru data a/neu'r oedi rhwng paru a chanfasio yn golygu bod y llwybr 'anghywir yn cael ei dyrannu i rai aelwydydd – rhoddodd bron i un ym mhob pump ymateb gan aelwydydd a ddyrannwyd i Lwybr 1 (lle nad oedd disgwyl y byddai newid yng nghyfansoddiad yr aelwydydd) wybod am newidiadau sylweddol i fanylion etholwyr.

- Efallai na fydd newidiadau angenrheidiol i fanylion etholwyr yn cael eu hadlewyrchu ar y cofrestrau – ni wnaeth 2.4 miliwn o aelwydydd, sef traean o'r rheiny a ddyrannwyd i Lwybr 2 (lle disgwyliwyd newid yng nghyfansoddiad aelwydydd), ymateb i'r canfasiad.

- Mae'n bosibl bod y gostyngiad yn amlder y cyfathrebu gydag aelwydydd Llwybr 1 yn cyfrannu at dangofrestriad cyrhaeddwyr – gwnaeth y gostyngiad yn nifer y cyrhaeddwyr cofrestredig, a ddechreuodd ar ôl cyflwyno'r cofrestru etholiadol unigol yn 2014, barhau yn 2021. Gostyngodd y nifer o gyrhaeddwyr cofrestredig gan 28.7% o gymharu â 2020.

Er ein bod yn gwybod bod ceisiadau cofrestru newydd yn cael eu gyrru ymlaen yn haws gan ddigwyddiadau etholiadol ar raddfa fawr,

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Adroddiad ar gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr yn 2021

Gwybodaeth am a chysylltiad i adroddiad y Comisiwn, a gyhoeddwyd heddiw (dydd Mercher 25 Mai).

Etholiadau mis Mai 2022: adborth gweinyddu etholiadol

Neges yn eich atgoffa y gallwch gyflwyno eich adborth ynghylch etholiadau mis Mai 2022.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn

mae'n bwysig serch hynny bod y canfasiad a gweithgareddau cofrestru eraill drwy gydol y flwyddyn yn cefnogi cofrestrau cywir a chyflawn. Gall hyn helpu i ostwng y nifer fawr o geisiadau cofrestru a gafwyd yn union cyn etholiadau mawr, pan fydd capasiti staff y Swyddogion Cofrestru Etholiadol eisoes wedi'i ymestyn.

Ein hastudiaethau ymchwil i gywirdeb a chyfanrwydd y cofrestrau yw'r asesiadau diffiniol o'u hansawdd cyffredinol. Bydd yr astudiaeth nesaf, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer cofrestrau mis Rhagfyr 2022, yn caniatáu i ni asesu'n llawn effaith gyffredinol y prosesau canfasio newydd.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i gynorthwyo a herio Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ac yn gweithio gyda nhw i sicrhau y byddwn yn gwneud defnydd llawn o'r data sydd ar gael. Dylai hyn helpu i roi dealltwriaeth well o effaith arferion penodol o fewn y fframwaith bresennol a'n cynorthwyo ni gyda nodi a rhannu arferion da.

Rydym hefyd yn argymell y dylai'r system gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr gael ei moderneiddio ymhellach, er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl i sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn cael eu cofrestru'n gywir. Dylai hyn gynnwys defnydd gwell o ddata cyhoeddus, er enghraifft gan wasanaethau eraill y llywodraeth, i wneud cofrestru'n haws i bleidleiswyr, a system cofrestru mwy cydgysylltiedig i leihau cofrestriadau wedi'u dyblygu ac annog cofrestru drwy'r flwyddyn gyfan.

Etholiadau mis Mai 2022: adborth gweinyddu etholiadol

Fel a nodwyd mewn Bwletinau diweddar, hoffem glywed am eich profiadau o weinyddu etholiadau mis Mai 2022. Mae eich adborth yn bwysig iawn i ni - bydd yn llywio ein hadroddiadau ar yr etholiadau ac yn ein helpu i wella'r modd yr ydym yn eich cefnogi yn y dyfodol.

Diolch i bawb sydd eisoes wedi rhannu eu meddyliau gyda ni. Os hoffech roi adborth i ni, gallwch wneud hynny drwy gwblhau ein harolwg. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Mercher 8 Mehefin.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr arolwg, cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2022

rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.